CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

Grŵp Strategol / Strategy Group

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ddydd Mercher, Hydref 24 am 10.30yb yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun.

Presennol: Fred Cunningham (Coleg Llysfasi - Cadeirydd); Elliw Ellis-Davies (ATOM PR); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); David Jones (Coleg Glannau Dyfrdwy); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Verona Pritchard Jones (Popeth Cymraeg); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion) Huw Evans (Coleg Llandrillo Cymru); Janice Lewis (Coleg Menai); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); Paul Croke (Coleg Iâl); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion) Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Meri Huws (Prifysgol Bangor); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech WEA)

Gweithredu

1. CROESO A RHAGARWEINIAD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Fred Cunninhgam, Coleg Llysfasi a oedd yn y Gadair yn absenoldeb Meri Huws.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 GORFFENNAF 2007

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2007 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

(a) CYNLLUN GWEITHREDOL

Cafwyd trafodaeth ar y cynllun gweithredol ac eglurodd IG os ***oedd gan unrhyw un o'r darparwyr unrhyw sylwadau neu bwyntiau yna dylent gysylltu efo IG yn y Ganolfan a bydd y rhain yn cael sylw penodol.*** Adroddodd IG fod APADGOS wedi gwrthod cynlluniau gweithredol y 6 chanolfan gan nad **Darparwyr**

oeddent yn ddigon SMART. Bydd y Ganolfan felly yn ail gyflwyno ei chynllun erbyn y Nadolig ***Mynegodd HE y byddai'n syniad cael dogfen carreg filltir a fydd yn adolygu'r datblygiadau strategol a gweithredol yn chwarterol.*** **IG**

4. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Cafwyd adroddiad gan IG a mynegodd:

- Mae'r Ganolfan wedi derbyn tua £30k sef dyraniad ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am wledigrwydd a bydd yn cael ei rannu ymysg darparwyr fel y bo'n briodol. Mynegodd DJ a RL bod Coleg Glannau Dyfrdwy a Coleg Garddwriaeth Cymru wedi derbyn llai o unedau eleni ond eu bod mewn cyswllt efo Ann Jenkins, Llywodraeth Cynulliad Cymru. O'r herwydd mae'n bur debyg y bydd y ddau ddarparwr methu cofrestru myfyrwyr ar ôl y tymor yma. ***Bydd IG yn trafod y sefyllfa efo Llywodraeth Cynulliad Cymru.*** **IG**
- Nid oedd APADGOS yn fodlon efo model darpariaeth gogledd yr hen Glwyd. Erbyn hyn mae model ddrafft wedi ei greu ac rydym yn disgwyl ymateb gan un o'r darparwyr perthnasol cyn ei gyflwyno i Ann Jenkins, Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w ystyried.
- Mae'r Ganolfan wedi derbyn grant o £10,575 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a bydd £6000 yn cael ei ddefnyddio trwy gydweithio efo Menter Iaith Conwy i ymchwilio i agweddau siaradwyr Cymraeg tuag at ddysgwyr; mae £4000 wedi cael ei neilltuo i gynnal ymarfer i ymchwilio i ddiddordebau dysgwyr ac mae £575 wedi ei neilltuo ar gyfer mapio darpariaeth gymdeithasol Gymraeg a gweithgareddau dysgu anffurfiol a gynhelir ar draws y rhanbarth. Mae cais hefyd wedi ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2008/09 a dyfernir hwn cyn y Nadolig.
- Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion Iaith y darparwyr i drafod nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o brif ffrydio'r Gymraeg o fewn ein sefydliadau. Cafwyd trafodaethau ar fodelau cynllunio penodol a chytunodd Coleg Menai i rannu arfer da efo gweddill y darparwyr.
- Bydd y Ganolfan yn targedu'r gweithleoedd gyda'r bwriad o greu pecyn a fydd yn cael ei ddefnyddio i gynllunio hyfforddiant iaith. Mae'n fwriad gan y Ganolfan rannu'r ddarpariaeth yn y gweithle a chynnig opsiynau i'r cyfarfod nesaf ar sut i wneud hyn.
- Mae APADGOS wedi comisiynu cwmni Old Bell 3 i wneud gwerthusiad o faes Cymraeg i Oedolion. ***Dylai'r darparwyr gael briff o'r gwerthusiad yma.*** **IG**
- Adroddwyd fod y Ganolfan yn cynllunio prosiect ymchwil dros gyfnod o 6 mlynedd a bydd adborth yn cael ei fwydo'n ôl i'r darparwyr o ffrwyth yr ymchwil. Y gobaith fydd cymhwyso'r canfyddiadau, fel y bo'n briodol i'n darpariaeth yn y Gogledd.
- Oherwydd yr angen i gael diffiniad clir o'r dwys/darnynol, ***bydd IG yn cyflwyno papur yng nghyfarfod y Panel Darparwyr nesaf ac yna bydd yn adrodd yn ôl i'r*** **IG**

Grŵp Strategol.

- Mae'r Ganolfan wedi ymgynghori efo arbenigwr cyfreithiol am yr Employment Equality (Age) Regulations, a bydd yn cylchredeg gwybodaeth i bawb unwaith y derbynnir barn clir a chadarn ar y mater.

5. RHEOLI ANSAWDD

Cafwyd adroddiad gan HH a mynegodd bydd y drefn arsylwi yn dechrau efo Coleg Llysfasi, Coleg Llandrillo Cymru, Coleg Iâl a NEWI yn Nhachwedd 2007***. Bydd y Ganolfan angen amserlenni'r tiwtoriaid cyn gynted â phosib er mwyn cael trefnu'r arsylwi***. Erbyn y flwyddyn nesaf bydd y darparwyr eraill yn cael eu harsylwi hefyd. Mae cynlluniau dysgu unigol yn cael eu creu gan y darparwyr. Bydd cynlluniau datblygu proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid rhan amser gyda nifer yn gweithio i fwy nag un darparwr a'r gobaith yw i'r Ganolfan chwarae rôl ganolog o gydlynu. Nifer o'r canolfannau eraill wedi symud ymlaen efo'i datblygiadau. Dylai'r darparwyr hyrwyddo'r arholiadau a bydd y Ganolfan yn gallu cynnig cymorth. **Darparwyr**

6. HYFFORDDIANT

Mae LLUK yn paratoi safonau newydd ar gyfer y cymhwyster newydd, bydd y cymhwyster yn cael ei gyflwyno mewn 3 rhan a'r gobaith y bydd y cymhwyster yn dechrau ym Medi 2008. Mae APADGOS yn pwyso ar y canolfannau i gyflwyno cwrs sydd heb ei ddilysu gan LLUK, nid yw'r Ganolfan yn hapus o gwbl efo'r sefyllfa. Mae pob Canolfan arall wedi cytuno i gyflwyno'r cwrs yn Ionawr 2008. Gellir defnyddio APEL ar gyfer y cymhwyster newydd a 10 fydd yn cael ymrestru ar y cymhwyster. Penderfynodd y Panel Darparwyr toedd dim pwrpas cynnig y cwrs oni bai y byddai cymhwyster ar ddiwedd y cwrs. Barn unfrydol y Grŵp Strategol oedd ni ddylem gynnig y cwrs yn Ionawr 2008 a dylem ddisgwyl tan fydd y cwrs cyflawn wedi cael ei ddilysu.

7. DARPARIAETH 2007/08

Bu'r swyddogion datblygu yn trafod gyda'r darparwyr ynglŷn â darpariaeth y gweithle ac maent yn paratoi adroddiad o'r sefyllfa i'r gweithgor cenedlaethol. Ymddengys bod nifer yr ymrestriadau gan y darparwyr yn eithaf da, bydd y swyddogion datblygu yn cydweithio efo'r darparwyr ar y mannau gwan lle nad oes cyrsiau yn cael eu cynnig. Bydd y data yn cael ei chasglu yn chwarterol gan y darparwyr. Byddant yn hyrwyddo arholiadau CBAC o fewn y darparwyr. Prosiect darpariaeth Cymraeg i'r Teulu a fydd yn annog rhieni i siarad Cymraeg efo'i plant, mae'r ysgolion yn gefnogol iawn i'r fenter. Anogir y darparwyr os oes ganddynt unrhyw unedau dros ben yna cysylltwch efo'r Ganolfan.

8. MARCHNATA

(a) CYFLWYNIAD AR WAITH YMCHWIL MARCHNATA BEAUFORT RESEARCH

Penderfynwyd gohirio'r cyflwyniad ar waith ymchwil marchnata Beaufort Research a'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf. **IG/ID**

(b) BLAENORIAETHAU MARCHNATA'R GANOLFAN

Cafwyd adroddiad gan Elliw Ellis-Davies, Cwmni ATOM PR, ar Gynllun Marchnata'r Ganolfan. Bydd y Ganolfan yn adolygu'r cynllun marchnata mewn cydweithrediad efo cwmni ATOM PR gyda golwg ar sicrhau trefn farchnata/cyfathrebu clir a phwrpasol, sydd yn ychwanegu at weithgareddau marchnata darparwyr unigol. Yn y cyfarfod nesaf cawn drosolwg o'r sefyllfa. Os oes gan y darparwyr unrhyw sylwadau neu syniadau i gwmni ATOM PR yna mae croeso iddynt eu hanfon ymlaen at y Ganolfan.

9. POLISI FFI GYFFREDIN

Mynegwyd pryder gan Goleg Glannau Dyfrdwy a Coleg Garddwriaeth eu bod wedi derbyn llai o arian eleni gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maent mewn trafodaethau efo Ann Jenkins, Llywodraeth Cynulliad Cymru ond hyd yma nid ydynt wedi derbyn ymateb. Teimlwyd y byddai'n debygol y byddai'r Colegau methu cofrestru myfyrwyr ar ôl tymor yma oherwydd y diffyg mewn cyllid.

10. U.F.A.

Nid oedd unrhyw fater arall

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 16^{eg} Ionawr 2008 am 10.30yb, Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Conna